## ATODLEN 2

Rheoliad 2

### Dosbarthiadau o Niwed

**Dosbarth I**

**1.** Niwed Dosbarth 1 yw unrhyw niwed eithafol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys—

(a) marw o unrhyw achos;

(b) canser yr ysgyfaint;

(c) mesothelioma a thyfiannau malaen eraill;

(ch) parlysu parhaol islaw'r gwddf;

(d) niwmonia difrifol a rheolaidd;

(dd) colli ymwybyddiaeth yn barhaol;

(e) anafiadau o losgiadau 80%.

**Dosbarth II**

**2.** Niwed Dosbarth II yw unrhyw niwed difrifol iawn y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys—

(a) clefyd cardio-resbiriadol;

(b) asthma;

(c) clefydau resbiriadol anfalaen;

(ch) gwenwyno gan blwm;

(d) sioc anaffylactig;

(dd) cryptosporidiosis;

(e) clefyd y llengfilwyr;

(f) cnawdnychiant myocardaidd;

(ff) trawiad ysgafn;

(g) dryswch cronig;

(ng) twymyn ddifrifol reolaidd;

(h) colli llaw neu droed;

(i) torasgwrn difrifol;

(j) llosgiadau difrifol;

(l) colli ymwybyddiaeth am ddyddiau.

**Dosbarth III**

**3.** Niwed Dosbarth III yw unrhyw niwed difrifol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys—

(a) anhwylderau'r llygad;

(b) llid y ffroenau;

(c) pwysedd gwaed uchel;

(ch) anhunedd;

(d) nam newroseicolegol;
(dd) syndrom adeilad afiach;
(e) dermatitis rheolaidd a chyson, gan gynnwys dermatitis drwy gyffyrddiad;
(f) alergedd;
(ff) llid y coluddion;
(g) dolur rhydd;
(ng) chwydu;
(h) straen difrifol cronig;
(i) trawiad ysgafn ar y galon;
(j) canser malaen y croen ond un y gellir ei drin;
(l) colli bys;
(ll) torpenglog ac ergydwst difrifol;
(m) clwyfau difrifol i'r pen neu i'r corff sy'n torri drwy'r cnawd;
(n) llosgiadau difrifol i'r dwylo;
(o) anafiadau straen neu ysigiad difrifol;
(p) meigryn difrifol a rheolaidd.

**Dosbarth IV**

**4.** Niwed Dosbarth IV yw unrhyw niwed cymedrol y gellir yn rhesymol ei rag-weld o ganlyniad i'r perygl posibl dan sylw, gan gynnwys—

(a) haint y nodau eisbilennol;
(b) anghysur difrifol achlysurol;
(c) tyfiannau diniwed;
(ch) niwmonia ysgafn achlysurol;
(d) torri bys;
(dd) ergydwst ysgafn;
(e) briwiau cymedrol i'r wyneb neu i'r corff;
(f) cleisio difrifol i'r corff;
(ff) peswch neu annwyd difrifol rheolaidd.